

## Merched y Wawr Llannau'r Tywi – Canolfan a Gardd Hywel Dda – Mehefin 2017

Ar noson braf o hirddydd haf aeth aelodau cangen Llannau'r Tywi i ymweld â Chanolfan a Gardd Hywel Dda, yn Hendygywyn-ar-daf, i ddysgu mwy am un o ffigurau hanesyddol mwyaf Cymru, oedd yn byw yno ar ddechrau'r ddegfed ganrif.

Croesawyd ni i'r Ganolfan, adeilad pren hardd ar batrwm triphlyg tŷ Celtaidd, gan Ken a Margarete, dau o wirfoddolwyr y Ganolfan. Peter Lord, yr artist o Aberystwyth gynlluniodd yr ardd a'r Ganolfan, i nodi cyfreithiau y ddegfed ganrif.

Clywsom fod Hywel Dda wedi galw ei gynrychiolwyr o bob rhan o'r wlad i gynhadledd yn ei gyfrinfa hela yn Nhŷ Gwyn yn Hendygywyn-ar-Daf. Yn y gynhadledd, a barodd am chwe wythnos, trafodwyd yr hen gyfreithiau a detholwyd y rhai i'w cadw a'r rhai i'w diwygio, ac ysgrifenyddwyd cyfreithiau newydd. Cafodd y cyfreithiau hyn eu gweithredu yng Nghymru am ganrifoedd lawer.

Tu fewn i'r Ganolfan, gwelwyd lluniau o Lawysgrif Peniarth 28, un o'r llawysgrifau Cymreig hynaf, fersiwn Ladin o Gyfraith Hywel Dda, sydd yn dyddio nôl i'r drydedd ganrif ar ddeg. Mae'r chwe gardd fechan â choeden wahanol ym mhob un yn cynrychioli rhan arbennig o'r Gyfraith, e.e. Trosedd a Cham; Cymdeithas, Cenedl a Braint; Gwragedd; Contract; Eiddo; Y Brenin a'r Llys.

Gwelwyd enghreifftiau celfydd iawn o'r cyfreithiau ar placiau llechi gyda'r darluniau wedi eu gwneud allan o wydr, cerameg ac enamel. Mae teimlad o lonyddwch a thawelwch wrth gwydro'r ardd.

Cafwyd noson hyfryd a phawb wedi mwynhau'n fawr. 'Roedd nifer yn teimlo y byddent yn hoffi dychwelyd yn y dyfodol agos er mwyn cael mwy o amser i werthfawrogi'r holl drysorau. Yn ddiweddglo i'r noson cafwyd swper blasus yn y Fox & Hounds, Bancyfelin. Noson i'w chofio.